



GWNEUD ADDASIADAU RHESYMOL

Mae'n hawdd diweddarau eich cofnodion.

Gallwch wneud hyn mewn nifer o ffyrdd:

- Mewngofnodi i'ch cyfrif Fy Newydd a diweddarau eich manylion personol
- Ffonio ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0303 040 1998. Bydd aelod o'r tîm yn diweddarau eich cofnodion ar eich rhan
- Pan fyddwn yn anfon arolwg atoch, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n llenwi'r ffurflen monitro cydraddoldeb sydd wedi'i hamgáu
- Os ydych chi'n byw yn un o'n cynlluniau byw'n annibynnol, siaradwch gyda'ch Swyddog Byw'n Annibynnol a fydd yn diweddarau eich cofnodion ar eich rhan

Mae casglu eich data cydraddoldeb a chadw ein cofnodion wedi'u diweddarau yn bwysig. Mae'n ein helpu ni i deilwra ein gwasanaethau ac yn caniatáu i ni wneud yn siŵr nad oes neb yn cael eu trin yn annheg.

GWELWCH ISOD RAI ESIAMPLAU O BETH ALLWN NI EI WNEUD I ADDASU EIN GWASANAETHAU I FODLONI EICH ANGHENION.

NODWEDD WARCHODEDIG	ESIAMPLAU O ADDASIADAU RHESYMOL Y GALLWN EU GWNEUD
OED	<ul style="list-style-type: none">• Sicrhau ein bod yn delio gydag oedolyn cyfrifol.
ANABLEDD	<ul style="list-style-type: none">• Gwrando arnoch chi pan rydych chi'n rhannu gwybodaeth am eich anabledd.• Cnocio'n uchel pan fyddwn yn ymweld â'ch cartref.• Aros yn hirach i chi ateb y drws.• Helpu addasu eich cartref i gwrrd â'ch anghenion, lle bo hynny'n bosib• Trefnu bod dehonglwr iaith arwyddion neu gyfieithydd yn helpu gyda chyfathrebu os ydych chi wedi gofyn am hynny.• Darparu gwybodaeth i chi yn y fformat rydych chi wedi gofyn amdano, e.e. ffont bras neu braille.• Os yw un o aelodau'r aelwyd yn drwm eu clyw, byddwn yn eu hwynebu nhw wrth siarad, a byddwn yn siarad yn glir. Dim ond os bydd yr aelod hwn o'r aelwyd yn gofyn i ni wneud hynny y byddwn ni'n codi ein llais.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y siarter hon, neu os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

NODWEDD WARCHODEDIG	ESIAMPLAU O ADDASIADAU RHESYMOL Y GALLWN EU GWNEUD
ANABLEDD	<ul style="list-style-type: none"> Gallwn ysgrifennu pethau i lawr os yw hynny'n addas. Wrth wneud gwaith atgyweirio, byddwn yn sicrhau bod dim byd yn rhwystro mynediad i aelodau o'r aelwyd sydd â phroblemau symud, e.e. cadw llwybrau, drysau a lloriau yn glir. Symud dodrefn ar eich rhan, os hysbysir ymlaen llaw. Wrth symud dodrefn ar ran aelod o'r aelwyd sydd â nam ar eu golwg neu sydd â phroblem symud, byddwn yn gofyn lle dylid gosod y dodrefn. Byddwn hefyd yn nodi man lle gellir storio deunyddiau yn ddiogel.
CREFYDD/ CREDOAU (AR GAIS)	<ul style="list-style-type: none"> Gallwn osgoi ymweld â'ch cartref yn ystod gwyliau crefyddol/diwylliannol sy'n bwysig i chi. Gallwn osgoi amserau gweddïo pan fyddwn yn ffonio neu'n ymweld â chi. Anfon hebryngwr gyda gweithiwr os oes angen. Dangos parch tuag at fannau megis cysegrfannau ac ystafelloedd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer addoli. Dangos parch tuag at wrthrychau a symbolau crefyddol, ac ni fyddwn yn cyffwrdd â nhw na'u symud heb ganiatâd.
HIL	<ul style="list-style-type: none"> Bod yn ymwybodol o wahaniaethau diwylliannol a hiliol.
RHYWIOLDEB, RHYWEDD, TRAWSRYWEDD & AILBENNU RHYWEDD	<ul style="list-style-type: none"> Parchu rhagenwau dewisedig, hunaniaeth rhywedd a rhywioldeb. Osgoi defnyddio termau fel 'cariad', 'my love' a 'dear'.
IAITH	<ul style="list-style-type: none"> Trefnu bod dehonglwr iaith arwyddion neu gyfieithydd yn helpu gyda chyfathrebu os ydych chi wedi gofyn am hynny Darparu gwybodaeth i chi yn y fformat rydych chi wedi gofyn amdano, e.e. ffont bras neu braille Pan fyddwch yn cysylltu â ni, byddwn yn eich trosglwyddo chi i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg os byddwch chi'n gofyn i ni wneud hynny
MAE'R ADDASIADAU HYN YN GYMWYS I'R HOLL NODWEDDION	<ul style="list-style-type: none"> Gyda'ch caniatâd chi, fe allwn ni siarad gyda'ch person enwebedig neu'ch sefydliad cefnogi Anfon gwarchodwr gyda gweithiwr, ar gais Gwrando ar eich anghenion Rhybuddio aelodau o'r aelwyd cyn gwneud unrhyw sŵn uchel Darparu gwybodaeth ar sefydliadau sy'n medru cynnig cefnogaeth (dolen i wefan troseddau casineb/cymunedau mwy diogel) os ydych chi'n cael eich erlid, eich aflonyddu neu eich trin yn annheg oherwydd unrhyw nodwedd warchodedig Trafod gydag aelodau'r aelwyd cyn troi unrhyw gyfleustodau i ffwrdd

Os ydych chi'n cael eich erlid, eich aflonyddu neu eich trin yn annheg oherwydd eich nodweddion gwarchodedig, gall Newydd ddarparu cefnogaeth a'ch cyfeirio chi tuag at asiantaethau cefnogi priodol, e.e. **Llamau, Age Concern, Cymorth i Ddiodefwyr, Gwasanaethau Cymdeithasol, True Vision, The Mix (ar gyfer pobl dan 25), Childline, EYST (Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig), MIND, Plattform, Diverse Cymru, Stonewall, Cymorth i Fenywod ac Umbrella Cymru**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y siarter hon, neu os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

 0303 040 1998  yholiadau@newydd.co.uk